

Cyngor Cymuned Llanelian (312)

Cofnodion cyfarfod Mai 7, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Hefina Williams, Dafydd Griffiths, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: John Griffiths, Cyng. Richard Jones, Cyng. Aled Jones

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.

Roedd yr aelodau yn cydymdeimlo ag Aled Jones yn dilyn profedigaeth ei fam. Cytuno ysgrifennu at y teulu i gydymdeimlo. CT

2 Datgan Diddordeb

Ian Evans – Llwybrau Cyhoeddus

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Thomas Jones.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Materion Priffyrdd – Nid oedd diweddariad gan Alun Roberts yn dilyn y cyfarfod, gofynnwyd i'r clerch gysylltu eto. Nodwyd bod car oedd wedi ei barcio yn Stad Tynrhos ers peth amser wedi ei symud bellach, cadarnhaodd y clerch ei bod hefyd wedi cysylltu a'r DVLA ynglyn a'r cerbydau perthnasol ym Mhengorffwysfa. Cytuno cysylltu a CSYM hefyd gan mai ar eu tir hwy mae'r cerbydau wedi eu parcio. Nodwyd bod y garafan ger Rhos Newydd yn dal i guddio'r blwch post a bod trigolion lleol yn cwyno. Mae'r cyngor eisioes wedi dod a'r mater at sylw CSYM. CT

Nodwyd siom nad oedd un o'r cynghorwyr sirol yn bresennol eto. Nodwyd bod gan Aled Jones reswm teilwng, a'i fod fel rheol yn mynychu cyfarfodydd ac yn weithgar. Mae angen atebion, ac mae'r tri aelod sirol i fod i gefnogi'r cyngor cymuned a chydweithio. Rydym fel cyngor wedi codi ymwybyddiaeth tro ar ol tro a swyddogion CSYM yn cymryd dim sylw.

Gofynnwyd i'r clerch gysylltu a'r adran briffyrdd i ddiolch am, a chydabod y gwaith ar Lon yr Ysgol, bod y safon y gwaith ac amseru dros wyliau'r ysgol yn dda iawn ond y byddwn yn parhau i fonitro safon y gwaith yn yr ardal a thynnu sylw at faterion o bwys. CT

4.2 Llwybrau Cyhoeddus – Bu i Ian Evans adael yr ystafell gyfarfod. Darllenwyd ebost gan Arwel Evans (swyddog tramwy CSYM) mewn ymateb i ymholiadau'r cyngor cymuned. Trafodwyd cynnwys yr ebost a chytuno ysgrifennu yn ol, gyda chopi at bennaeth yr adran. Roedd yr aelodau yn siomedig iawn a'r ymateb, ac yn siomedig nad oedd unrhyw ymgynghori gyda'r cyngor cymuned. Gofynnwyd hefyd beth oedd blaenoriaethau a strategaeth llwybrau CSYM.

Nodwyd bod nifer o lwybrau da, defnyddiol yn yr ardal, ac nid oedd aelodau yn cytuno a llwybrau drwy erddi neu iard fferm heb fod angen. Mae'r aelodau wedi gofyn yn y gorffennol am fwy o arian i gynnal y llwybrau presennol ond cafwyd wybod ar y pryd bod CSYM yn gweithio ar strategaeth newydd i flaenoriaethu

llwybrau. Ble mae'r drafodaeth a'r ymgynghoriad yma? Cytuno bod angen mwy o drafodaeth a gwybodaeth pellach cyn bod unrhyw waith pellach yn cael ei gwblhau ar lwybrau yn yr ardal. Y cadeirydd i gysylltu a'r swyddogion perthnasol.

EH

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi codi ymwybyddiaeth am ddarnau siarp a phigog ar un o'r gamfeydd newydd oedd wedi ei osod yn ddiweddar. Deallwyd ei fod wedi ei ddiogelu bellach. Nodwyd siom nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau pan fu gosod y gamdda i ddechrau.

Bu i Ian Evans ddychwelyd i'r ystafell gyfarfod.

4.3 Blwch Post – Cafwyd wybod gan y Post Brenhinol bod gwaith cefndirol yn parhau mewn perthynas a gosod blwch post y tu allan i'r siop.

4.4 Stad Dublin – Cafwyd gadarnhad bod y car oedd yn creu anhawster wrth barcio gyferbyn a'r gyffordd wedi ei symud erbyn hyn a bod Grwp Cynefin wedi cysylltu a'r perchennog i sicrhau y byddai yn parcio yn y lle cyn parcio o hyn allan.

4.5 Baw Ci – Nodwyd bod bin ychwanegol wedi ei osod ger y safle bws ym Mhengorffwysfa erbyn hyn. Bydd y blychau bagiau baw ci yn cael eu gosod yn fuan, daw cadarnhad gan CSYM eu bod wedi eu harchebu. Nododd Hefina Williams bod baw ci yn broblem lawr Lon Tyddyn Waen. Cytuno gofyn i'r warden gwn ymweld.

CT

5 Adroddiadau Pwyllgorau

5.1 Caeau Chwarae – Mae'r mainc newydd wedi cyrraedd ac angen ei osod.

GH
INE

5.2 Llithrfa – Dim diweddariad ynglyn a'r arwyddion ger y llithrfa. Nodwyd bod yr harbwrfeistr, Geoff Price wedi ymddeol bellach. Bydd y postyn yn cael ei osod 15/5/2019, nid oes llawer o oriadau wedi eu dosbarthu hyd yma.

5.3 Mynwent – Mae dwy fainc i'w gosod, un ym Mosra a'r llall yn Llaneilian. Pwyllgor y Fynwent i gadarnhau lleoliadau o fewn y mynwentydd.

TDJ
INE

Cafwyd pris newydd gan Huw Roberts i ddiogelu y beddfeini yn unol a'r adroddiad diweddar. Cytuno derbyn y pris newydd a chadarnhau pwy fyddai berchen ar yr offer newydd sydd ei angen i gwblhau'r gwaith.

CT

Cafwyd gadarnhad gan y clerc bod yr adran gynllunio wedi cymeradwyo cynlluniau'r giat erbyn hyn ac felly bod posib bwrw mlaen a'r prosiect o'r diwedd.

CT

5.4 Cyllid a Pholisi – Dim diweddariad

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – Dosbarthwyd copiau o gofnodion y pwyllgor a chyfansoddiad y pwyllgor i'r rheini oedd yn bresennol er gwybodaeth. Cadarnhaodd Hefina Williams ei bod wedi paratoi draft ar gyfer erthygl i'r Arwydd. Cadarnhaodd Glenys Jones ei bod yn hapus bod ynghlwm a'r pwyllgor.

5.6 Pwyllgorau Allannol –

Cafwyd wybod gan Dafydd Griffiths bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon yn cwrdd 8/5/19 i drafod Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Mon a bod angen ymateb erbyn diwedd mis Mai. Cadarnhodd y clerc ei bod wedi anfon y ddogfen i'r aelodau drwy ebost. Cytuno byddai Cyngor Llaneilian yn cefnogi ymateb y Bartneriaeth a chefnogi datblygiad gogledd Mon. Dafydd Griffiths i adrodd yn ol i'r clerc yn dilyn y cyfarfod.

DG
CT

6 Adolygu Cyfansoddiadau Pwyllgorau

Dosbarthwyd copiau o'r dogfennau perthnasol i'r aelodau am sylwadau a diweddariadau. Trafodwyd eu cynnwys a'u derbyn.

7 Cynllunio

7.1 Ceisiadau – Roedd un cais i'w ystyried:

- (FPL2019/100) Maes Teg – nodwyd bod hwn yr un cais ag o'r blaen ond ar gyfer defnydd busnes yn hytrach na defnydd personol (ffurflen gwahanol i'w gwblhau). Cytuno yr un sylwadau a'r cais gwreiddiol (Mawrth 2019) gan mai'r un datblygiad ydoedd.

CT

Nodwyd bod cais arall wedi dod ger bron yr aelodau ond mai mater cyfreithiol oedd penderfynnu os oedd angen cyflwyno cais cynllunio neu peidio ac nid mater i'r cyngor cymuned.

7.2 Penderfyniadau – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£214.60 HMRC PAYE
£126.41 Viking Direct (offer gweinyddol)
£100.00 Clwb Ieuencid Penysarn (ail daliad)
£293.66 Clerc – Cyflog
£37.50 CSYM – blychau bagiau baw ci

8.2 Ceisiadau am Arian

Ni fu cais am gefnogaeth.

8.3 Archwiliad

Cadarnhaodd y clerc bydd yr archwiliad mewnol yn cael ei gwblhau 28/5/2019.

9 Iechyd a Diogelwch

Dim

10 Wylfa Newydd

Cafwyd wybod gan Dafydd Griffiths bod trafodaethau yn y llywodraeth ynglyn ag oblygiadau oedi prosiect Wylfa Newydd a defnydd posib arall o'r safle, a sut byddai posib ariannu'r prosiect yn y dyfodol. Ni does gwybodaeth pellach ar hyn o bryd.

11 Gohebiaeth

11.1 Adroddiad Pwyllgor Safonau – cydnabod derbyn yr adroddiad ar gofrestru diddordebau aelodau. Y clerc i gadarnhau ac anfon copi o'r cofnodion i'r swyddogion perthnasol.

CT

11.2 Hyfforddiant – Daw cais gan y pwyllgor safonau am gynllun hyfforddiant pob cyngor. Nodwyd bod cyllideb ar gyfer hyfforddiant i aelodau a'r clerc ond nad oedd cynllun penodol. Mae cyfle i unigolion fynychu unrhyw sesiwn hyfforddiant perthnasol sydd ar gael iddynt. Y clerc i gadarnhau ac anfon copi o'r cofnodion i'r swyddogion perthnasol.

CT

11.3 Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Mon - wedi ei drafod eisioes (pwyllgorau allannol).

- 11.4 Daw gwybodaeth gan CSYM bydd y lon ar Allt Nebo wedi cau dros dro tra bod gwaith i newid y polion teligraff.
- 11.5 Moderneiddio Ysgolion – daw datganiad gan CSYM eu bod yn ail edrych ar ad-drefnu ysgolion ardal Llangefni a Seiriol ac felly bod rhywfaint o oedi yn y broses ymgynghori ar ysgolion ardal Amlwch.
- 12 Unrhyw Fater Arall**
- 12.1 Un Llais Cymru – cadarnhawyd byddai Ian Evans a Hefina Williams yn cynrychioli'r cyngor yn y pwyllgorau ardal. CT
- 12.2 Yswiriant – mae polisi'r cyngor angen ei adnewyddu yn fuan. Cytuno derbyn y pris isaf sef adnewyddu'r polisi gyda'r un cwmni sef Inspire (Axa). Cytuno adolygu'r polisi yn flynyddol. CT
- 12.3 Daw cwynion bod y llwybr ym mynwent Bosra yn anwastad. Cytuno cysylltu a'r Henaduriaeth am ddiweddariad. CT
- 12.4 Taliadau i Gynghorwyr – nododd y clerch bod pob aelod yn gymwys i dderbyn £150 y flwyddyn tuag at gostau perthnasol ynghlwm a bod yn aelod o'r cyngor. Byddai'r taliadau yma yn dod gan y cyngor cymuned, nid yn ganolog, ac felly byddai angen codi'r swm perthnasol drwy'r prised. Nid yw'r gost yma wedi ei gynnwys yng nghyllideb y Cyngor am eleni. Dosbarthwyd ffurflenni i'r aelodau eu harwyddo os am dynnu yn ol o'r cynllun h.y. os nad oeddent am hawlio'r arian yn 2019/20. Bu i bawb oedd yn bresennol gadarnhau nad oeddent am dderbyn y taliad. Y clerch i wirio gyda'r aelodau eraill. CT
- 12.5 Nodwyd bod un postyn ger ble mae'r llwybr beicio yn dechrau wedi torri. Mae'r postyn ger ymyl y lon i wahardd cerbydau rhag defnyddio'r palmant/llwybr beicio. Y clerch i gysylltu a CSYM i godi ymwybyddiaeth. CT
- 12.6 Gadfa Newydd – cafwyd wybod bod nifer o drigolion yr ardal agos yn bryderus am ddatblygiad carafannau heb ganiatad, deallwyd bod trac/lon wedi ei osod ynghyd a pwyntiau trydan ac ysbwriel a bod carafan statig wedi cyrraedd hefyd erbyn hyn. Ni does cais cynllunio am y fath ddatblygiad wedi ei dderbyn. Cytuno cysylltu a'r cynghorwyr sirol i wneud ymholiadau. CT
- 12.7 Llwybr Porth Gwichiad – daethpwyd at sylw'r aelodau bod trac newydd wedi ei osod o Rhosymynach Isaf. Nodwyd bod y datblygiad o fewn yr AHNE ac felly y dylai CSYM ei ystyried yn fwy manwl. Ai hwn oedd y datblygiad dan sylw yn y cais i weld os oedd angen caniatad cynllunio neu peidio? Cytuno ysgrifennu i'r adran gynllunio a'r aelodau sirol am ddiweddariad a chadarnhad o'r datblygiad. Mae pryderon am ddefnydd y trac, a mynediad i Borth Gwichiad a'r llwybr arfordirol. Mae lluniau o'r datblygiad wedi eu hafnon at y clerch drwy ebost. CT

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 4, 2019 am 7 o'r gloch (cyfarfod blynyddol)

Bu'r cyfarfod orffen am 21.00.

**Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd**